Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Gweithiwr Glanhau** |
| **Lleoliad:** | **Campws Uwchradd Abertyleri** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol** |
| **Cyf. / Rhif y Swydd:** | **BG007463** |
| **Cyflog:** | **Gradd 1 (£22,366 y flwyddyn / pro rata)** |
| **Oriau:** | **10.5 awr yr wythnos, 41 wythnos y flwyddyn** |
| **Contract:** | **Parhaol** |

## Crynodeb o'r Swydd

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol o fewn Blaenau Gwent am recriwtio 1 Gweithiwr Glanhau yn Campws Uwchradd Abertyleri yn barhaol i gyflawni dyletswyddau glanhau yn yr ysgol.

## Hysbyseb Lawn

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol am recriwtio 1 Gweithiwr Glanhau yn Campws Uwchradd Abertyleri i ymgymryd â'r gwaith parhaus o lanhau ardal benodol o fewn yr ysgol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn glanhau unrhyw ardal ddynodedig i safon benodol drwy ddefnyddio cemegau, offer a pheiriannau. Bydd disgwyl i chi hefyd gynnal a chadw eich cwpwrdd, offer a pheiriannau trwy eu glanhau a'u storio'n gywir ar ôl eu defnyddio.

Dylai'r ymgeiswyr llwyddiannus allu gweithio fel rhan o dîm, yn ogystal â defnyddio eu menter eu hunain, a bod yn barod i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer y swydd.

## Cyraeddiadau Addysgol / Profiad

Mae gwybodaeth am y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ac arferion iechyd a diogelwch sylfaenol, ynghyd â phrofiad ohonynt, yn ddymunol.

**Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad cofnodion troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Dyddiad Cau:** **08 Awst 2024 – 12am, hanner nos**

**Dyddiad y Cyfweliad:** **15 Awst 2024**

hyderus o ran anabledd

YMRODDEDIG